

CLWB MYNYDDA CYMRU

Cyfarfod Blynyddol 2007.

Yr Hen Gapel, Nantgwynant, 6:15 yh, Sadwrn 17eg Tachwedd 2007.

Cofnodion.

1. **Croesawodd** y Cadeirydd y 51 aelod a oedd yn bresennol
2. **Roedd tri aelod wedi'u ymddiheuro.**
3. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth
 - Breuddwyd Ioan Bowen Rees adeg sefydlu'r Clwb yn 1979 oedd gweld CMC yn disodli'r "BMC" yng Nghymru
 - Hyd yma'r prif ddiddordeb yng Ngh M P wedi bod oherwydd yr insiwrans
 - Trwy ymddiddori ym materion CMP yng Nghymru gellir symud y corf i ffwrdd o Gymru a'i Gymreigio. Bydd swyddogion CMP yn cwrdd â Phwyllgor y Clwb ym mis Ionawr
 - Anogwyd aelodau mynychu CCB y CMP yng Nghymru ym Mhlas y Brenin ar 24 Tachwedd
 - Cytunwyd yn unfrydol cefnogi'r ymgyrch cyhoeddi Llawlyfr y Bwrdd Hyfforddi Mynydda yn y Gymraeg, gan nodi yn arbennig bydd gweithgareddau awyr agored yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd ar gyfer Ysgolion yng Nghymru o fis Medi ymlaen - ac felly cynnydd pellach yn yr angen.
 - Gofynnodd oes oedd aelod o'r Clwb efo'r cymwysterau perthnasol yn fodlon cynorthwyo gyda Chlwb Cerdded Ysgol Dyffryn Nantlle ar un dydd Sadwrn pob mis.
4. Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau
 - Yn ystod y flwydd roedd 12 taith yn y De, 11 ar ddydd Mercher, 7 cyfarfod dringo, 1 sesiwn hyfforddi, 3 taith i deuluoedd yn ogystal ar y prif deithiau a theithiau y tu allan I Gymru
 - Talwyd diolch i'r holl arweinyddion, gan eu hatgoffa o'r angen pasio enwau a chyfeiriadau'r sawl a oedd yn bresennol heb fod yn aelodau ymlaen i'r Ysgrifennydd Aelodau
5. Adroddiad Ysgrifennydd y Gwefan
 - Roedd y Gwefan wedi'i ailwampio
 - Roedd y "Mynyddiadur" yn cael ei datblygu, cyfle i eraill cyfrannu
 - Bydd mwy o le ar gyfer materion CMP
6. Adroddiad y Trysorydd
 - Roedd y Fantolen yn un iach, gyda chynnydd wrth gefn o £600 yn ystod y flwyddyn
 - Roedd gan y clwb tua 250 o aelodau
7. Etholwyd y Swyddogion canlynol:
 - Cadeirydd – Dylan Huw Jones
 - Is-gadeirydd – Morfudd Thomas

- Trysorydd – John Arthur Jones
- Ysgrifenyddion – Clive James, Maldwyn Roberts, Iolo ap Gwynn

8. Etholwyd y canlynol fel aelodau'r Pwyllgor : Tegwen Williams, Arwel Roberts, Alwen Williams, Llew ap Gwent, Ceri Jones, Gareth Roberts, Rhys Dafis.

Diolch i John Williams ac Alan Hughes am eu gwasanaeth ar y Pwyllgor. Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor am 7:30 yh, nos Fercher 16 Ionawr 2008 ym Mhlas y Brenin. Roedd gan bob aelod gyfle i gyfrannu eitemau drwy'r Swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor.

9. Penodwyd Gareth P Evans fel Archwilydd

10. Trafodwyd y syniad cyhoedd cylchgrawn y Clwb - "Mynydda", fel e-gylchgrawn yn y dyfodol. Pe bai yna aelodau sy'n fodlon gweithredu fel Panel Golygyddol dylent gysylltu â'r Pwyllgor.

11. Yn absenoldeb unrhyw fusnes arall, diolchodd y Cadeirydd bawb a fu'n gefnogol iddo a'r Clwb yn ystod y flwyddyn a fu.